# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 1

TROSOLWG A DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL

*Hysbysiadau yn ei gwneud yn ofynnol ildio meddiant: contractau safonol rhagarweiniol a chontractau safonol ymddygiad gwaharddedig*

### 151 Contractau safonol rhagarweiniol a chontractau safonol ymddygiad gwaharddedig: hysbysiadau o dan adrannau 173 a 181

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys i—

(a) hysbysiad a roddir yn unol ag adran 173 (hysbysiad gan landlord) mewn perthynas â chontract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig;

(b) hysbysiad adennill meddiant a roddir yn unol ag adran 181 (ôl-ddyledion rhent difrifol) mewn perthynas â chontract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig.

(2) Rhaid i'r hysbysiad (yn ogystal â chydymffurfio gydag unrhyw ofynion eraill o dan y Ddeddf hon) hysbysu deiliad y contract am yr hawl i wneud cais am adolygiad o dan adran 202 (adolygiad gan landlord), a'i hysbysu erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud y cais.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol rhagarweiniol a phob contract safonol ymddygiad gwaharddedig.